

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2014 yn Festri Salem am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Dafydd Hughes, Dewi Jones, Geraint Thomas, Eryl Owain ynghyd â'r cler, Elfed Williams, a'r Cyngorydd Sir, Wyn Ellis Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Aled Roberts.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd fel rhai cywir.

Toiledau: arwyddion cadarnhaol y byddai modd cael arian gan y Cyngor Sir i dacluso a phaentio'r toiledau.

Adeiladau gwag yn y pentref: gobaith y byddai prisiad yr oedd y cyngor wedi ei drefnu ar un adeilad yn dod i law yn fuan. Hefyd gofynnwyd i'r Cyngorydd Wyn Jones i holi'r Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr adeilad gwag arall oedd yn pentref.

Gwefan i'r Cyngor: trefniadau yn symud ymlaen yn foddhaol.

Praesept 2014: penderfynwyd peidio â chodi'r prasept eleni a'i adael ar £5,000.

Rhoddion at elusennau: penderfynwyd fel â ganlyn: Tŷ Gobaith £50, Ymgyrch Cancr £50, Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd £25.

Biniau casglu gwastraff: roedd amryw o gwynion ynglŷn â'r cynllun newydd o gasglu gwastraff, yn cynnwys biniau ddim yn cael eu casglu ar amser a gwynt yn eu chwythu drosodd. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Conwy i geisio datrys y problemau.

Baw cŵn: mae'n amlwg bod hon yn broblem gynyddol yn y pentref gyda thrigolion ddim yn cymryd cyfrifoldeb am eu cŵn a hyn yn creu problemau i lawer. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Conwy.

Ffyrdd: amryw o faterion, y cler i gael cyfarfod efo'r Cyngor Sir i drafod y rhain.

Maes parcio'r Neuadd Goffa ('Rhen Ysgol): penderfynwyd trafod efo pwyllgor y Neuadd Goffa i edrych a oes modd ehangu'r maes parcio.